



Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
SMED2@llyw.cymru

09 Rhagfyr 2020

Annwyl gydweithiwr,

Ymgynghoriad ar Orchymyn arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021

Diolch am y cyfle i ymateb i'ch ymgynghoriad ar Orchymyn arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru). Nid oeddem o'r farn bod angen i ni ddarparu ymateb i'r holiadur cyfan, ond hoffem i'r llythyr hwn gael ei gynnwys yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i nodi ein cefnogaeth lawn i'r cynnig cyffredinol i CGA gael pwerau i atal cofrestrdyddion o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori.

Gwnaethom ymateb yn gadarnhaol i ymgynghoriad cynharach Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a nawr yr ymgynghorir ar y Bil, hoffem ailadrodd ein cefnogaeth i'r pwerau hyn gael eu rhoi i CGA.

Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda CGA ac yn rhannu nodau sylfaenol tebyg, yn enwedig ein ffocws ar ddiogelu buddiannau dysgwyr. Yn yr un modd, mae CGA yn cynnal hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg, ac rydym ni'n gyfrifol am sicrhau bod cymwysterau a'r system

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

gymwysterau yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr, ac yn ennyn hyder y cyhoedd.

Mae ein rôl reoleiddio yn cynnwys monitro ac archwilio gweithgareddau cyrff dyfarnu, ymchwilio i gwynion, gan gynnwys camymddwyn, a lle bo angen, defnyddio ein pwerau gorfodi i ddiogelu buddiannau dysgwyr a sicrhau bod safonau priodol ar gyfer cymwysterau yn cael eu pennu a'u cynnal.

Felly, mae gennym ddiddordeb gweithredol hefyd mewn cyd-reoleiddwyr o fewn y sector addysg a sgiliau sydd â phwerau priodol.

Cefnogaeth i'r gorchymyn arfaethedig

Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi mai prif ddiben gosod gorchymyn atal dros dro yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu, ac os cânt eu rhoi, dim ond mewn achosion difrifol iawn lle mae CGA o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er budd y cyhoedd y byddai'r pwerau'n cael eu defnyddio.

Credwn y byddai rhoi'r pwerau hyn i CGA at y dibenion a ddisgrifir yn cefnogi'r nod cyffredinol o ddiogelu buddiannau dysgwyr, ac mae'n bwysig er mwyn darparu mesurau diogelu ychwanegol i ddysgwyr. Rydym hefyd o'r farn y bydd yn hybu hyder y cyhoedd, drwy roi sicrwydd i rieni, gwarcheidwaid a rhanddeiliaid am ymddygiad ac ymarfer unigolion sydd wedi cofrestru gyda CGA.

Wrth gloi, rydym yn llwyr gefnogi bod y pwerau hyn yn cael eu rhoi i CGA.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod unrhyw agwedd ar ein hymateb ymhellach.

Yn gywir,



Philip Blaker
Prif Weithredwr